Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

—

Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Estelle Hitchon**
Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

5 Tachwedd 2020

Annwyl Estelle

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cynnal ymchwiliad i **effaith COVID-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru**.

Fel rhan o'r ymchwiliad, mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth lafar yn ddiweddar ynglŷn ag effaith COVID-19 ar iechyd meddwl pobl Cymru a'r gwasanaethau cymorth sydd ar waith.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ddoe, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am unrhyw ddata sydd gennych sy'n nodi a fu cynnydd yn nifer y digwyddiadau y bu'n rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fynd iddynt lle mae amheuaeth o hunanladdiad neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.

Mae'r pandemig yn sicr yn cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl pobl Cymru, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor i'n cynorthwyo yn ein hymchwiliad.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565